

# DATGANIAD HYGJRCHEDD



Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i gynnwys a gyhoeddir ym mharth fyngherdynteithio.llyw.cymru.

Caiff y wefan hon ei rhedeg gan PTI Cymru. Bwriedir iddi gael ei defnyddio gan gymaint o bobl ag sy'n bosibl. Dylai'r testun fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Dylai fod modd i chi:

- Chwyddo maint y testun i hyd at 300% heb unrhyw broblemau.
- Llywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig.
- Newid y dudalen i fodd cyferbynnedd uchel, modd graddlwyd neu fodd lliwiau gwrthdro.
- Defnyddio'r cyfleuster darganfod dolenni cyswllt i ddod o hyd i bob dolen gyswllt sydd ar y dudalen, drwy faes dewis syml. Mae gan AbilityNet gyngor ynghylch gwneud eich dyfais yn haws i'w defnyddio os oes gennych anabled.

## Camau i hybu hygjrchedd

Mae PTI Cymru yn cymryd y camau canlynol i sicrhau bod gwefan fyngherdynteithio (fyngherdynteithio.llyw.cymru) yn hygjrch:

- Mae'n integreiddio hygjrchedd yn ein harferion caffael.
- Mae'n darparu hyfforddiant ynghylch hygjrchedd i'n staff.
- Mae'n gweithredu YouAccess, sef adnodd sy'n galluogi pobl ag anabledau i deilwra tudalennau o wefan fyngherdynteithio i'w hanghenion.
- Mae'n adolygu ac yn diweddarau'r cynnwys yn rheolaidd.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau:

- Bod pob delwedd ar ein gwefannau'n cynnwys testun amgen priodol.
- Bod modd defnyddio amryw ffyrdd i gyrraedd pob elfen ryngweithiol o'r wefan, sy'n cynnwys llywio'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd.
- Bod arddull elfennau rhyngweithiol yn newid pan gaiff y llygoden ei dal uwch eu pen neu pan eir iddynt gan ddefnyddio bysellfwrdd.
- Bod holl liwiau'r blaendir a'r cefndir yn cael eu gwirio i sicrhau digon o gyferbynnedd, neu fod testun amgen yn cael ei ddarparu yn achos delweddau.
- Bod ein cynnwys yn glir ac yn gryno, a'i fod yn cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir heb ddefnyddio jargon.
- Bod pob tudalen yn defnyddio penynnau mewn modd rhesymegol a threfnus.
- Ei bod yn hawdd dod o hyd i 'bob galwad i weithredu'.
- Bod symbolau (e.e. >) yn cael eu defnyddio yn eu cyd-destun ac at eu defnydd semantig.
- Bod modd llywio pob ffurflen gan ddefnyddio bysellfwrdd, bod ganddynt fotymau 'anfon', ac y darperir ymateb priodol i ddangos bod y ffurflen wedi'i hanfon yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

## Gwybodaeth dechnegol am hygjrchedd y wefan hon

Mae PTI Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod ei wefan yn hygjrch, yn unol â Rheoliadau Hygjrchedd Cyrrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

At hynny, gall defnyddwyr ag anabledau ddefnyddio YouAccess i deilwra'r dudalen i'w hanghenion. Mae modd cyrraedd dewislen YouAccess drwy glicio ar yr eicon sydd ar ochr dde eich sgrin, neu drwy ddefnyddio bysellfwrdd i dabio drwy'r dudalen nes eich bod yn cyrraedd elfen olaf y dudalen.

Mae'n hawdd llywio dewislen YouAccess â llygoden neu â bysellfwrdd gan ddefnyddio'r saethau a'r fysell 'Enter'.

Yn benodol, gall defnyddwyr ddefnyddio YouAccess i:

- Chwyddo maint y ffont i hyd at 200%.
- Newid lliw'r testun a'r cefndir er mwyn cael cymhareb fwy effeithlon ar gyfer cyferbynnedd.
- Newid y ffont a ddefnyddir ym mhob rhan o'r dudalen, er mwyn ei wneud yn fwy darllenadwy. Mae ffont sydd wedi'i ddylunio yn benodol i ymdrin â rhai o symptomau cyffredin dyslecsia ar gael hefyd.
- Newid lliw a golwg pob dolen gyswllt ym mhob rhan o'r dudalen, a newid y modd y maent yn rhyngweithio, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd eu gweld.

- Newid y dudalen i fodd cyferbynnedd uchel, modd graddlwyd neu fodd lliwiau gwrthdro.
- Defnyddio'r cyfleuster darganfod dolenni cyswllt i ddod o hyd i bob dolen gyswllt sydd ar y dudalen, drwy faes dewis syml.
- Defnyddio'r geiriadur i ddod o hyd i ystyr term (Saesneg yn unig).

Bydd YouAccess yn cofio eich gosodiadau a bydd yn eu defnyddio'n awtomatig yng nghyswllt pob un o dudalennau'r wefan bob tro y byddwch yn ymweld â nhw. Dim ond yng nghof eich porwr chi y bydd yr holl ddata a'r holl osodiadau'n cael eu cadw - ni fyddant yn cael eu cadw yn unman arall. Gall defnyddwyr glicio neu bwysu'r fysel 'Enter' ar "Reset All" i fynd â'r wefan yn ôl i'w harddull wreiddiol.

Caiff yr holl agweddau swyddogaethol a'r holl arferion a restrir uchod eu gweithredu yng nghyswllt fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg y wefan hon, yn eu priod iaith.

## Statws o ran cydymffurfio

Mae'r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol â safon AA fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau.

## Cynnwys nad yw'n hygyrch

Caiff y cynnwys nad yw'n hygyrch ei amlinellu isod gyda manylion am:

- Y manau lle mae'n methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer llwyddo.
- Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer datrys y problemau.

Yn achos rhai delweddau, mae'r cyferbynnedd rhwng lliwiau'r testun a'r cefndir yn isel. Rydym yn bwriadu datrys y broblem honno erbyn mis Ebrill 2023.

Nid oes gan y delweddau sydd ar dudalennau destun amgen addas bob amser. Nid oes gan rai o'r delweddau unrhyw destun amgen o gwbl, ac mae gan rai ohonynt destun amgen anghyflawn. Nid yw hynny'n bodloni maen prawf 1.1.1 fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau (Cynnwys nad yw'n destun). Rydym yn bwriadu adnabod a datrys y problemau hyn erbyn mis Ebrill 2023.

Nid yw'r penynnau ar rai tudalennau mewn trefn amnyth resymegol. Nid yw hynny'n bodloni maen prawf 1.3.1 fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau (Gwybodaeth a chydberthnasau). Rydym yn bwriadu adnabod a datrys y problemau hyn erbyn mis Ebrill 2023.

Nid yw testun dolen gyswllt o'i gyfuno â chyd-destun y ddolen gyswllt, a bennir yn rhaglennol, yn nodi pwrpas y ddolen gyswllt. Nid yw hynny'n bodloni maen prawf 2.4.4 fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau (Pwrpas dolen gyswllt (yn ei chyd-destun)). Rydym yn bwriadu adnabod a datrys y problemau hyn erbyn mis Ebrill 2023.

## Dogfennau PDF a dogfennau eraill

Mae gennym waith celf y gellir ei lawrlwytho, nad yw'n hygyrch, ar ein gwefan. Os oes gennych unrhyw anghenion penodol, neu os hoffech ofyn am gopi caled o ddeunyddiau megis taflenni a phosteri, mae croeso i chi gysylltu â ni.

## Adborth

Byddem yn croesawu adborth gennych ynghylch hygyrchedd gwefan fyngherdynteithio. Rhowch wybod i ni os byddwch yn dod ar draws unrhyw rwystrau i hygyrchedd ar wefan fyngherdynteithio neu os oes arnoch angen y cynnwys mewn fformat gwahanol:

Dros y ffôn: 0300 200 22 33

Drwy ebost: [customerservice@mytravelpass.cymru](mailto:customerservice@mytravelpass.cymru)

Drwy'r post: Contact Centre Cymru, PO Box 52, Penrhyndeudraeth, LL49 0AY

Rydym yn ceisio ymateb i adborth cyn pen 5 diwrnod gwaith.

## Gweithdrefn orfodi

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysyddau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os byddwch yn anfodlon â'r modd y byddwn yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS).



## Sut y gwnaethom roi prawf ar y wefan hon

Gwnaethom ddefnyddio safon AA fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau i roi prawf ar y wefan hon.

Mae tîm digidol PTI Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn hygyrch i bob defnyddiwr a'u bod yn cydymffurfio â safon AA fersiwn 2.1 y Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Cafodd y datganiad hwn ei baratoi ar 16 Medi 2022. Cafodd y prawf ei gynnal gan Limegreentangerine Ltd. Gwnaethom roi prawf ar dempledi'r prif dudalennau ac ar y broses gwneud cais.

## Paratoi'r Datganiad Hygyrchedd hwn

Cafodd y datganiad hwn ei baratoi ar 16 Medi 2022.